## C: Beth yw gofal iechyd parhaus?

**A:** Pecyn gofal am ddim yw gofal iechyd parhaus y GIG i bobl sydd ag anghenion gofal iechyd parhaus sylweddol. Trefnir ac ariennir y pecyn gan y GIG. ***Rhaid bodloni meini prawf cymhwysedd llym*** a rhaid cael asesiad gan dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Medrwch dderbyn pecyn gofal iechyd parhaus y GIG mewn unrhyw leoliad y tu allan i ysbyty, gan gynnwys eich cartref eich hun neu gartref gofal.

Os ydych chi'n derbyn gofal yn eich cartref eich hun, bydd y GIG yn talu am y cymorth sydd ei angen arnoch gan weithwyr iechyd proffesiynol ac am y gofal personol sy'n medru cynnwys cymorth i olchi a gwisgo. Os ydych chi'n derbyn pecyn gofal iechyd parhaus y GIG mewn cartref gofal, bydd y GIG hefyd yn talu am eich ffioedd yn y cartref gofal.

**I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk**